Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion cyfarfod (rhithiol) misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 5ed o Dachwedd 2020.

1 **Presennol** Richard Williams (Cadeirydd) Gwilym Evans – Prenteg, Edward Evans Richard Parry – Bryncir, John Jones Clifford Williams – Garndolbenmaen, Megan Lloyd Williams – Golan, Huw Pritchard Delyth Evans Manon Jones Evans – Pentrefelin, Gwenno Emlyn Huws Iddon Edwards – Penmorfa. Cynghorydd Alwyn Gruffydd, Cynghorydd Stephen Churchman.

2 **Ymddiheuriadau** - Anwen Humphreys, Amanda N Owen, Dylan Pritchard, Dafydd Thomas.

3 **Ddim yn bresennol** - neb.

4 **Datgan buddiant** – neb.

5 **Cywirdeb y cyn-gofnodion** – Cofnodion 3/9/20. Argymhellion – 1/10/20. Huw Pritchard yn datgan eu cywirdeb a Gwenno Emlyn Huws yn eilio.

6 **Materion yn codi o'r cyn-gofnodion (argymhellion)**

Llwybrau Mynwent Bethel (chwynladdwr) - cytunwyd derbyn y pris o £25. Gwilym Evans yn cynnig a Megan Lloyd Williams yn eilio.

Ffonau talu cyhoeddus Cwm Pennant a Chwmystradllyn – cytunwyd i wrthwynebu dileu'r ffonau cyhoeddus. Clifford Williams yn cynnig a John Jones yn eilio.

Cynnig Cyngor Tref Nefyn – cytunwyd i gefnogi'r mesurau fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobl leol. Richard Parry yn cynnig a Gwilym Evans yn eilio.

Hen safle Bwrdd Dŵr Cwmystradllyn Swyddog o'r Bwrdd Dŵr am ymweld â'r safle gyda Megan Lloyd Williams i drafod pa waith sydd angen ei wneud ar y safle. Cyfarfod heb gael ei drefnu.

Ffordd Mynwent Prenteg - adroddwyd fod 3 o'r Cynghorwyr wedi cerdded o'r lôn fawr i fyny at y Fynwent. Yn eu barn, mae'r darn o'r lôn fawr at y

grid gwartheg angen sylw. Clerc i gysylltu gyda pherchnogion Fron Oleu i'w hysbysu o fwriad y Cyngor ac i ofyn caniatâd i wneud y gwaith.

Bryncir safle pebyll/carafanau ar Fferm Penllystyn Mater yn cael sylw gan Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd.

Prosiect Mynwentydd Byw Eryri – heb dderbyn ateb.

Materion Priffyrdd gwair tu allan i Fynwent Bethel, Ffordd Prenteg - Cwmystradllyn - heb dderbyn ateb.

Biniau glas tu allan i Cambrian Terrace, Garndolbenmaen – mae'r biniau yn cael eu gadael ar dir preifat, felly nid yw Cyngor Gwynedd yn gallu gweithredu ar y mater.

Arwyddion cau ffordd – derbyniwyd ateb gan yr Adran Briffyrdd. Clerc i gysylltu eto i gael ateb i'r ymholiad yn y llythyr gwreiddiol.

7 **Mynwentydd**

Tendr Torri Gwair

Trafodwyd bod tirwedd pob mynwent yn wahanol a bod angen rhoi mwy o fanyldeb yn y tendr. Penderfynwyd y byddai'r Cynghorwyr yn ymweld â'r mynwentydd a gwneud rhestr o'r gwaith sydd angen.

Pennant – Edward Evans a John Jones.
Bethel – Megan Lloyd Williams, John Jones ac Amanda N Owen.
Penmorfa – Dafydd Thomas ac Iddon Edwards.
Prenteg – Richard Williams a Gwilym Evans.
Ynyscynhaearn – Huw Pritchard, Delyth Evans a Manon Jones Evans.

Mainc Mynwent Bethel

Mae saer lleol wedi edrych ar gyflwr y fainc. Mae angen adnewyddu un o'r coed ar gefn y fainc ac mae 2 o'r coed ar y darn eistedd wedi dechrau pydru. O ystyried y gwaith sydd angen, mae'n debyg y byddai'n rhatach prynu mainc newydd. Clerc i holi 2 gwmni am bris a Huw Pritchard am holi un saer lleol.

Cais i osod mainc ym Mynwent Prenteg

Derbyniwyd cais i osod mainc bren er cof am breswyliwr lleol ar ochor y maes parcio. Penderfynwyd caniatáu y cais ar yr amod fod y teulu yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal a chadw'r fainc.

8 **Llwybrau Cyhoeddus**

Llwybr rhwng Tyn Ffridd a Ffridd Newydd - er gwybodaeth mae trefniadau ar y gweill i hongian yr ail giât.

9 **Adroddiad Pentrefi**

Pentrefelin

Gwair ar ochor y lonydd wedi ei dorri, ond mae canclwm angen ei ddifa rhwng Bron Gadair a Phlas Gwyn. Cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Goryrru rhwng Fferm Plymouth a Mynydd Du. Gwneud cais i ostwng y cyflymdra i 40 m.y.a.. Cysylltu gydag Adran Trafnidiaeth Cyngor Gwynedd.

Penmorfa

Cyflymdra band eang. Iddon Edwards i wneud ymholiadau.

Garndolbenmaen

Lloches bws – gwaith wedi ei orffen.

Gwaith torri coed wedi cychwyn ar lôn Capel Isaf at y lôn fawr.

Polion adlewyrchu angen ei ail osod. Cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Parcio London Road – Nant Heddwch – adroddodd y Cynghorydd Stephen Churchman ei fod wedi trefnu cyfarfod rhithiol gydag Iwan ap Trefor, Cyngor Gwynedd ar y 10 fed o Ragfyr i drafod sut i ddatrys y sefyllfa. John Jones am fynychu'r cyfarfod.

Prenteg

Llifogydd Prenteg – Carreg – arwyddion ddim ymlaen a dim byd ar y cyfryngau. Cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Cwm Pennant

Derbyniwyd galwad ffôn gan 2 o'r trigolion lleol. Roedd yr hysbyseb o'r bwriad i ddileu'r ffôn wedi ei osod tu fewn i'r blwch ffôn ac nid yn weladwy heblaw bod rhywun yn defnyddio'r ffôn. Hefyd, na fedr BT ddadlau nad oedd lawer o ddefnydd yn cael ei wneud o'r ffôn, oherwydd dim ond galwadau argyfwng mae'n bosib gwneud. Clerc i basio'r sylwadau ymlaen at Gyngor Gwynedd.

Cwmystradllyn

Ffordd wedi erydu at Fraich y Big. Cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

Bryncir

Bont Felin – dŵr yn dod ar draws y lôn. Cysylltu gyda'r Adran Priffyrdd.

10 **Archwilio Cymru – Trefniadau Archwilio Cynghorau Tref a Chymunedol Cymru yn y Dyfodol**

Adroddwyd y bydd y trefniadau i archwilio cynghorau tref a chymuned Cymru yn cynnwys rhaglen archwilio dair blynedd. Bydd y drefn am 2 o'r blynyddoedd yn debyg i'r trefniant presennol, ond bydd y 3ydd flwyddyn yn seiliedig ar olrhain trafodion bob cam i'r cofnodion gwreiddiol.

11 **Gohebiaeth**

Llythyrau Cyngor Gwynedd – rhybudd cau ffordd III Golan – rhannwyd 12/10/2020.
Rhybudd cau ffordd III Dolwgan Isaf a'r Lodge Garndolbenmaen – rhannwyd 4/11/2020.
Sul y Cofio.

Gohebiaeth ychwanegol

a Parc Cenedlaethol Eryri – Cronfa Prosiectau Cymuned rhannwyd 21/10/2020.

b Unllais Cymru – Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2021.
c Unllais Cymru - Sesiynau hyfforddiant o bell fis Tachwedd.
ch Fields in Trust – diogelu tir trwy weithred Cyflwyno.
d Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol – grantiau ar gyfer rhandiroedd.
dd Mantell Gwynedd Bwletin Rhif 6.
e Cylchlythyr Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

12 **Cynllunio**
Rhestrau – 25/9, 11/10, 17/10, 23/10/2020.

Ceisiadau Cynllunio – dim.

13 **Materion Ariannol**

Ceisiadau am arian: Cerebral Palsy Cymru. Trafod ym mis Chwefror.

Monitro'r Gyllideb: Dim gorwariant yn erbyn y gyllideb a osodwyd.

Biliau i'w talu:

Cyflog Clerc	=	£ 253.33
Ffôn	=	£ 10.00
Cyfrifiadur	=	£ 15.00
HMRC	=	£ 63.33
Dylan Edwards	=	£ 1240.00
Veolia	=	£ 1.86
Ychwanegwyd		
Aled Jones	=	£ 25.00

Derbyniadau

Henry Jones Cyf = £110.00
Madog Memorials = £ 55.00

Balansau Cyfrifon: Cadw £16,843.47 Cyfredol £21,675.76

14 **Dewis gohebiaeth i fynd i'r Wasg/Gwefan**

- Rhoddion Ariannol

Gwefan – Hysbyseb Rhoddion Ariannol